

# Hysbysiad hwylus

## Y Cydgyngor Gweinidogion

Ionawr 2012

### Cyflwyniad

Mae'r Cydgyngor Gweinidogion yn rhan o'r peirianwaith cysylltiadau rhynglywodraethol a sefydlwyd yn y DU yn dilyn datganoli. Cafodd ei sefydlu yn dilyn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Ei bwrpas yw cyd-drefnu'r berthynas gyffredinol rhwng y llywodraethau mewn ffordd ganolog. Mae'r hysbysiad hwylus hwn yn cynnwys hanes y Cydgyngor Gweinidogion yn gryno ac yn esbonio'i waith.

### Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Cafodd y **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** ei gyhoeddi'n wreiddiol ym mis Rhagfyr 2001. Cytunwyd ar y fersiwn ddiweddaraf ym mis Mehefin 2011.<sup>1</sup> Mae'n cynnwys cyfres o gytundebau rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon sy'n pennu'r egwyddorion sy'n sail i'r berthynas rhyngddynt. **Nid yw'r cytundebau'n rhwymo'n gyfreithiol.** Cafodd copi diwygiedig o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ei osod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Prif Weinidog ar 29 Mehefin 2011.<sup>2</sup>

Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw'r prif gytundeb. Mae'n darparu ar gyfer y **Cydgyngor Gweinidogion**, sy'n ddarostyngedig i gytundeb ar wahân yn unol â Rhan II y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Ceir tri choncordat cyffredin ar wahân sy'n rhoi trefniadau sydd i gryn raddau'n unffurf ar waith ar draws y Llywodraeth er mwyn ymdrin â:

- chyd-drefnu polisi'r UE a'i weithredu;
- cymorth ariannol i ddiwydiant; a
- cysylltiadau rhyngwladol sy'n ymwneud â chyfrifoldebau'r gweinyddiaethau datganoledig.

Mae adrannau unigol o Lywodraeth y DU a'r adrannau cyfatebol yn y llywodraethau datganoledig hefyd wedi cytuno ar **goncordatau dwyochrog**<sup>3</sup> ac wedi cyhoeddi'r rheini. Mae'r cyfrifoldeb gweinidogol o fewn Llywodraeth y DU am gytundebau'r Memorandwm

<sup>1</sup> [Swyddfa'r Cabinet, Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chytundebau cysylltiedig, Mehefin 2011](#) (Saesneg yn unig) [fel ar 25 Tachwedd 2011]

<sup>2</sup> [Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig gan y Prif Weinidog, Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, 29 Mehefin 2011](#) [fel ar 25 Tachwedd 2011]

<sup>3</sup> [Gwefan Llywodraeth Cymru, Tudalen we concordatau](#) [fel ar 25 Tachwedd 2011]

Cyd-ddealltwriaeth a'r Cydgyngor Gweinidogion yn perthyn i'r Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, yn ogystal ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, sydd wedi cael y cyfrifoldeb dyddiol am y Cydgyngor Gweinidogion oddi wrth y Prif Weinidog. Yr Ysgrifennydd Tramor a Chymanwlad sy'n gyfrifol am goncordatau sy'n ymwneud â Materion Cyd-drefnu Polisi'r Undeb Ewropeaidd a Chysylltiadau Rhyngwladol. Prif Ysgrifennydd y Trysorlys sy'n gyfrifol am y Concordat ar Gymorth Ariannol i Ddiwydiant. Ysgrifenyddion Gwladol yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol o fewn Llywodraeth y DU am hyrwyddo'r setliad datganoli, am sicrhau cysylltiadau gwaith effeithiol rhwng y Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig, ac am gynorthwyo i ddatrys unrhyw anghydfodau a allai godi.

Mae gan Brif Weinidog yr Alban, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon y cyfrifoldeb cyffredinol o fewn eu llywodraethau perthnasol am y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'i goncordatau cyffredin cysylltiedig. Maent yn cymryd rhan yn ôl yr angen yng ngwaith y Cydgyngor Gweinidogion, yn enwedig o ran cynorthwyo i ddatrys unrhyw anghydfodau a allai godi rhwng y gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU.

Mae rhestr cyfrifoldebau'r **Prif Weinidog Cymru** yn cynnwys "cysylltiadau gyda gweddill y Deyrnas Unedig".<sup>4</sup>

## Y Cydgyngor Gweinidogion

Dyma **gylch gorchwyl** y Cydgyngor Gweinidogion:

- ystyried materion nad ydynt wedi'u datganoli sy'n effeithio ar gyfrifoldebau datganoledig, a materion datganoledig sy'n effeithio ar gyfrifoldebau nad ydynt wedi'u datganoli;
- pan fydd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cytuno, ystyried materion datganoledig os yw o fudd trafod sut maent yn cael eu trin mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig;
- cadw golwg ar y trefniadau ar gyfer y cyswllt rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig; ac
- ystyried anghydfodau rhwng y gweinyddiaethau.

Mae'r Cydgyngor Gweinidogion hefyd yn ceisio datrys gwahaniaethau rhwng Llywodraeth y DU ac un o'r llywodraethau datganoledig ar faterion nad ydynt yn effeithio ar y llywodraethau eraill. Mewn achos o'r fath, bydd y cyngor yn cynnwys Gweinidogion priodol o'r DU.

## Sut mae'r Cydgyngor Gweinidogion yn gweithredu

Corff **ymgyngorol** yn hytrach na chorff gweithredol yw'r Cydgyngor Gweinidogion. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys materion sy'n ymwneud â ffiniau materion datganoledig/materion nad ydynt wedi'u datganoli:

<sup>4</sup> [Gwefan Llywodraeth Cymru, Tudalen we cyfrifoldebau'r Prif Weinidog](#) [fel ar 25 Tachwedd 2011]

Mae'r Cydgyngor Gweinidogion yn cwrdd mewn **tri fformat gweinidogol**:

- Y Cydgyngor Gweinidogion (Cyfarfod Llawn) – cyfarfod blynyddol rhwng arweinyddion pob gweinyddiaeth, sy'n cael ei gadeirio gan y **Prif Weinidog** ac sy'n arfer digwydd ym mis Mehefin cyn bod Senedd San Steffan a'r deddfwrfeydd datganoledig yn gorffen am doriad yr haf.
- Y Cydgyngor Gweinidogion (Ewrop) – cynhelir cyfarfod y Cydgyngor Gweinidogion (Ewrop), sy'n cael ei gadeirio gan yr **Ysgrifennydd Tramor**, cyn pob cyfarfod o'r Cyngor Ewropeaidd, a gynhelir bedair gwaith y flwyddyn fel arfer.
- Y Cydgyngor Gweinidogion (Domestig) – cafodd y fformat hwn ei gyflwyno yn 2008 er mwyn galluogi Gweinidogion o'r **pedair** gweinyddiaeth i drafod amrywiaeth o faterion, yn enwedig materion sy'n ymwneud â meysydd datganoledig a meysydd nad ydynt wedi'u datganoli. Mae Gweinidogion yn cwrdd yn fformat y Cydgyngor Gweinidogion (Domestig) tua thair gwaith y flwyddyn.<sup>5</sup>

Mae **Adroddiad Blynyddol**<sup>6</sup> yn amlinellu'r trafodaethau a gynhelir yn y fformatau gwahanol. Rhwng mis Mehefin 2010 a mis Mehefin 2011 cynhaliwyd y trafodaethau canlynol:

### **Y Cydgyngor Gweinidogion – Y Cyfarfod Llawn**

Cyfarfu'r Cydgyngor Gweinidogion ar ffurf cyfarfod llawn ar 8 Mehefin 2010, ac fe drafodwyd Rhaglen Lywodraethu newydd Llywodraeth y DU fel y'i nodwyd yn *The Coalition: our Programme for Government*. Trafodwyd yr economi a chyllid cyhoeddus ynghyd â chysylltiadau rhwng y gweinyddiaethau a chyfleoedd ar gyfer cydweithio cadarnhaol. Cytunodd y Cydgyngor Gweinidogion i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol am waith y flwyddyn flaenorol.

### **Trafodaethau polisi domestig**

Ar 22 Tachwedd 2010 trafodwyd:

- Cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio cyrff cyhoeddus yn y DU; a
- Datblygu ymhellach y protocol osgoi a datrys anghydfodau sy'n rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Ar 2 Chwefror 2011 trafodwyd:

- Rhaglen Diwygio Lles Llywodraeth y DU a'r goblygiadau i'r gweinyddiaethau datganoledig;
- Camau gweithredu i gefnogi twf economaidd; a
- Darpariaethau pellach o ran y protocol osgoi a datrys anghydfodau sy'n rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, cyn ei drafod yng nghyfarfod llawn nesaf y Cydgyngor Gweinidogion.

---

<sup>5</sup> [Gwefan Llywodraeth Cymru, Tudalen we y Cydgyngor Gweinidogion](#) [fel ar 25 Tachwedd 2011]

<sup>6</sup> [Y Cydgyngor Gweinidogion, Adroddiad Blynyddol 2010/2011, Mehefin 2011](#) [fel ar 25 Tachwedd 2011]

## **Paratodau ar gyfer Cyngorau Ewropeaidd**

Ar 8 Mehefin 2010 trafodwyd y blaenoriaethau ar gyfer y Cyngor Ewropeaidd ym mis Mehefin, gan gynnwys:

- Ewrop 2020 a llywodraethu economaidd;
- Newid hinsawdd;
- Cyd-drefnu rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig a Sganio'r Gorwel;
- Presenoldeb y Llywodraethau Datganoledig yng Nghynghorau'r UE.

Ar 18 Hydref 2010 trafodwyd y blaenoriaethau ar gyfer y Cyngor Ewropeaidd ym mis Hydref, gan gynnwys:

- Newid hinsawdd;
- Cyd-drefnu rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig a Sganio'r Gorwel;
- Presenoldeb y Llywodraethau Datganoledig yng Nghynghorau'r UE;
- Gweithredu uniongyrchol gan y gweinyddiaethau datganoledig gerbron Llys Cyfiawnder Ewrop;
- Y newyddion diweddaraf am Fil yr UE;
- Adolygu Cyllideb yr UE.

Ar 6 Rhagfyr 2010 trafodwyd y blaenoriaethau ar gyfer y Cyngor Ewropeaidd ym mis Rhagfyr, gan gynnwys:

- Llywodraethu economaidd;
- Cyd-drefnu rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig a Sganio'r Gorwel;
- Cyllideb yr UE;
- Strategaeth Ynni'r UE;
- Arlywyddiaeth Hwngari.

Ar 14 Mawrth 2011 trafodwyd y blaenoriaethau ar gyfer y Cyngor Ewropeaidd ym mis Mawrth, gan gynnwys:

- Cyd-drefnu rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig a Sganio'r Gorwel;
- Ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig o ran datblygu safbwyntiau polisi'r DU;

- Cyllideb yr UE;
- Llywodraethu Economaidd; a
- Rhaglen Diwygio Lles y DU.

Cyfarfu'r **Pedwar Gweinidog Cyllid** ddwywaith yn ystod y cyfnod hwn i drafod yr economi a chyllid cyhoeddus.

## Datrys Anghydfodau

Fel y nodwyd uchod, un o rolau'r Cydgyngor Gweinidogion yw ystyried unrhyw anghydfodau rhwng llywodraethau. At y diben hwn, cytunwyd ar **brotoocol osgoi a datrys anghydfodau**. Caiff anghydfodau eu cyfeirio at y Cydgyngor Gweinidogion os na fu'n bosibl i'r ddwy ochr ddatrys yr anghydfod rhyngddynt neu drwy gyfrwng yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol.<sup>7</sup>

Yn 2010/11 cafodd pedwar anghydfod eu hystyried o dan y protocol osgoi a datrys anghydfodau:

- materion yn ymwneud â dyrannu cwotas pysgod gwynion ym Môr y Gogledd (Llywodraeth yr Alban / Llywodraeth y DU);
- taliadau canlyniadol Barnett yn deillio o rai agweddau ar bolisi *Building Britain's Future* Llywodraeth y DU (Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU);
- trafodaethau ynghylch anghydfod am yr ymrwymiad cyfalaf £18 biliwn i Ogledd Iwerddon (Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon / Llywodraeth y DU); ac
- anghydfod ynghylch taliadau canlyniadol Barnett yn deillio o'r Gemau Olympaidd 2012 (Llywodraeth y DU / Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon / Llywodraeth yr Alban / Llywodraeth Cymru).<sup>8</sup>

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am (noder pwnc hysbysiad hwylus yma), cysylltwch ag **Alys Thomas** ([Alys.Thomas@cymru.gov.uk](mailto:Alys.Thomas@cymru.gov.uk)) neu **Owain Roberts** ([Owain.Roberts@cymru.gov.uk](mailto:Owain.Roberts@cymru.gov.uk)) yn y Gwasanaeth Ymchwil.

Gallwch weld rhestr lawn o'n [hysbysiaidau hwylus](#) yma.

Rhif ymholiad: 11/1740 Alys Thomas

Mae briffiau gan y Gwasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd.

Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon drwy'r post i'r Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu dros e-bost i [Research.Service@cymru.gov.uk](mailto:Research.Service@cymru.gov.uk)

<sup>7</sup> [Swyddfa'r Cabinet, Protocol Osgoi a Datrys Anghydfodau, 2011](#) (Saesneg yn unig) [fel ar 25 Tachwedd 2011]

<sup>8</sup> [Y Cydgyngor Gweinidogion, Adroddiad Blynyddol 2010/2011, Mehefin 2011](#) [fel ar 25 Tachwedd 2011]